# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Adroddiad Blynyddol

2021/22

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill neu yn eich iaith eich hun

Swyddfa Weithredol
Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NG
E-bost: 💻 busnescorfforaethol@siryfflint.gov.uk

This document is available in English.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Adroddiad Blynyddol 2021/2022

## Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 5 |
| 2. | Cynnydd | 6 |
| 3. | Bodloni ein hamcanion cydraddoldeb | 7 |
| 4. | Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu (yn cynnwys gwybodaeth am y gweithlu) | 16 |
| 5. | Cyflog cyfartal | 18 |
| 6. | Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 24 |
| 7. | Hyfforddiant | 25 |
| 8. | Caffael | 26 |
| 9. | Casgliad | 26 |

Atodiadau

1. Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Crynodeb Gweithredol

Croeso i'r ail adroddiad blynyddol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint 2020-2024, sy'n nodi'r cynnydd a wnaethom i gyflawni ein saith amcan cydraddoldeb yn ystod 2021/22. Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw lleihau anghydraddoldebau i bobl â nodweddion gwarchodedig.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi ailsefydlu ein Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol yn cynnwys aelodaeth o uwch reolwyr yn cynrychioli portffolios i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ar draws gwasanaethau'r cyngor.

Yn ystod 2021/22, daethom yn Gyngor Noddfa (statws heb ddyfarniad) i gydnabod ein bod yn gweithio i greu diwylliant sy'n croesawu, cynnwys a grymuso pobl sy'n ceisio noddfa.

Fe wnaethom lansio menter "Bydd Garedig Ar-lein" i annog pawb i ymrwymo i bum addewid i fod yn garedig ar-lein, ailystyried ein hymddygiad ar-lein a chroesawu parch, empathi a charedigrwydd ac yn y pen draw, rhoi stop ar seiber-fwlio.

I gefnogi ein gweithlu, fe wnaethom hyfforddi 106 o weithwyr i ddod yn Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Mae Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn bwynt cyswllt yn y gweithle i weithiwr sydd â phroblemau iechyd meddwl neu ofid emosiynol. Gallai'r cyswllt hwn amrywio o sgwrs gychwynnol i gefnogi'r unigolyn i gael y cymorth priodol mewn argyfwng.

Yn ystod 2022 – 2024, byddwn yn canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth a gwybodaeth am asesiadau effaith i gynyddu ansawdd a nifer yr asesiadau effaith sy'n cael eu cwblhau ac i ddatblygu hyder y rhai sy'n eu cwblhau.

Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu penodol i adlewyrchu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Rydym yn falch o ddweud ein bod eisoes wedi rhoi rhai camau ar waith, megis y system electronig ar gyfer cofnodi bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion.

| Neal Cockerton<br>Prif Weithredwr | Y Cynghorydd Billy Mullin<br>Dirprwy Arweinydd y Cyngor<br>(Llywodraethu) ac Aelod Cabinet<br>Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau |
|---|---|

# Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021/2022

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 y Cyngor yn trafod y cyfnod o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022. Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd i fodloni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn rhoi crynodeb o gyflawniadau yn ystod y cyfnod hwn.

1.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd sector cyhoeddus cyffredinol i

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;

(b) cynyddu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu; a

(c) meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

1.3 Y nodweddion gwarchodedig fel y maent yn cael eu diffinio gan y Ddeddf Cydraddoldeb yw:

| | |
|---|---|
| Oedran | Anabledd |
| Ailbennu Rhywedd | Priodas a Phartneriaeth Sifil |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Hil |
| Crefydd a Chred | Rhyw |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | |

Caiff ein hymrwymiad tuag at y Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb eu hamlinellu yn yr Hysbysiad Cydymffurfio - Y Gymraeg. Fe ymdrinnir â'r camau gweithredu yr ydym wedi eu cymryd i fodloni ein cyfrifoldebau statudol tuag ar y Gymraeg mewn adroddiad ar wahân.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus:-

- gyhoeddi amcanion i ymdrin â gwahaniaethau mewn tâl
- cyhoeddi datganiad yn amlinellu'r camau y mae wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i fodloni'r amcanion a faint o amser mae'n disgwyl ei gymryd i fodloni pob amcan
- llunio adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â chyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a thâl
- ymgysylltu â phobl o grwpiau gwarchodedig
- asesu effaith polisïau newydd a diwygiedig ar bobl o grwpiau gwarchodedig
- cyhoeddi a defnyddio gwybodaeth ar gydraddoldeb

Pwrpas yr amcanion cydraddoldeb yw lleihau meysydd penodol o anghydraddoldeb a nodwyd gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru er mwyn nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol.  Gellir gweld ein hamcanion cydraddoldeb lleol a'r sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi'r amcanion yma.

1.4 Yn ogystal â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol caiff ein gwaith ar gydraddoldeb ei gefnogi gan bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb,  a Chanllaw Iaith Eglur a chaiff ei ddarparu fel rhan o ddogfennau Cyngor amrywiol megis Cynllun y Cyngor a'r Strategaeth Cwsmeriaid.

## 2. Cynnydd

2.1 Cyhoeddwyd ein  hamcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Mawrth 2020.  Mae'r cynllun gweithredu i fodloni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gael yn Atodiad 1; mae hwn hefyd yn amlygu'r cynnydd a wnaed i fodloni bob cam.

2.2 Mae'r tabl canlynol yn nodi ein perfformiad tuag at gyflawni'r camau gweithredu a osodwyd ar gyfer pob amcan, rydym wedi asesu ein hunain yn defnyddio'r meini prawf a ganlyn:

| | |
|---|---|
| R | **Cynnydd Cyfyngedig** - oedi yn y gweithgaredd a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn |
| A | **Cynnydd Boddhaol** - rhywfaint o oedi mewn gweithgaredd a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn ar y cyfan |
| G | **Cynnydd  Da** - gweithgareddau'n  cael eu cwblhau ar amser, ar y trywydd iawn |

| | |
|---|---|
| Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl | G |
| Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles | G |
| Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw | G |
| Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig | G |
| Cynyddu mynediad i gyfrannu at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig | G |
| Gwella safon byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol | G |
| Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi | G |

## 3. Bodloni ein Hamcanion Cydraddoldeb 2021/22

3.1 Mae'r adran hon yn nodi ein prif gyflawniadau i fodloni ein saith amcan cydraddoldeb yn ystod 2021/22.

## Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.

**Yn ystod 2021/22:**

- Fe wnaethom gefnogi lles ein gweithwyr drwy hyrwyddo ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr, Care First, a darparu adnoddau i gefnogi iechyd meddwl ac unigedd, yn cynnwys fideos a rhestrau gwirio.
  Mae gan y Cyngor dudalen benodol ar Ddeall Dementia ar y wefan: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Dementia.aspx
- Datblygwyd Strategaeth Dementia ar y cyd i Sir y Fflint yn 2021, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Dementia Gogledd Cymru a darganfyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus. Mae Cynllun Gweithredu Deall Dementia y Cyngor yn cael ei reoli ar y cyd â grwpiau cymunedol. Bydd Bwrdd Prosiect Dementia newydd yn cael ei sefydlu yn 2022 i barhau i ddarparu blaenoriaethau strategol a chamau gweithredu.
- Mynychodd mwy o weithwyr  Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Dementia
  - 6 x Sesiynau Cyfeillion Dementia - 47 o fynychwyr
  - 4 x Ymwybyddiaeth Dementia - 29 o fynychwyr
  - 1 x Camau Dementia - 14 o fynychwyr
  - 1 x Materion Cymhleth Dementia - 17 o fynychwyr
- Parhaodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i weithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i gynnal a datblygu Cymunedau Sy'n Deall Dementia a'r rhwydwaith Ffrindiau Dementia.
- Mae gan bawb sydd â diagnosis o anabledd dysgu hawl i gael eu profion iechyd blynyddol yn eu meddygfa. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi'r rhai sydd angen cymorth gyda'u hapwyntiadau. Mae llwybr newydd yn cael ei greu o gwmpas "lab mewn bag", ac mae pob un o'r timau Anableddau Dysgu (tîm aml asiantaeth) yn gweithio tuag ato. Rydym bellach wedi cael yr holl offer a byddwn yn cael hyfforddiant er mwyn i'r rhaglen hon gael ei chyflwyno. Bydd hyn er mwyn cefnogi'r rhai nad ydynt yn gallu mynd i'w meddygfa i gael eu profion iechyd blynyddol. Bydd gennym nyrs cyswllt clwstwr i Sir y Fflint yn ein tîm fydd yn cwblhau'r profion iechyd yn y cartref ar y cyd â'r feddygfa.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

Mae 106 o weithwyr wedi cael eu hyfforddi fel Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.
Mae Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn bwynt cyswllt yn y gweithle i weithiwr sydd â phroblemau iechyd meddwl neu ofid emosiynol.
Gallai’r cyswllt hwn amrywio o sgwrs gychwynnol i gefnogi’r unigolyn i gael y cymorth priodol mewn argyfwng.

## Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles

**Yn ystod 2021/22:**

- Fe wnaethom roi system electronig ar waith i gofnodi ac adrodd ar fwlio’n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion.
- Fe wnaethom godi ymwybyddiaeth am fwlio’n seiliedig ar hunaniaeth yn ystod yr wythnos gwrth-fwlio.
- Sicrhau bod hyfforddiant ar-lein ar Gaethwasiaeth Fodern a Llinellau Sirol ar gael i weithwyr ysgol.
- Parhaodd y clwb ieuenctid Pride Inspire ac mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal erbyn hyn.
- Mae nifer y disgyblion Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (NEET) ar ôl cwblhau addysg orfodol yn dal yn isel iawn ar 1.2% o’r grŵp blwyddyn cyffredinol er gwaethaf effaith y pandemig COVID.
- Mae teuluoedd o ffoaduriaid sy’n symud i Sir y Fflint wedi cael cynnig cymorth cynhwysfawr. Mae hyn wedi cynnwys cymorth i gael mynediad at addysg ac i ymgysylltu a hi ynghyd â gwasanaethau gofal estynedig i gefnogi’r teulu cyfan i integreiddio’n llwyddiannus â’r gymuned ehangach.
- Cafodd Ysgolion Coedwig eu darparu gan weithwyr ieuenctid cymwys i bobl ifanc a nodwyd gan ysgolion, fyddai’n elwa o’r gefnogaeth ychwanegol hon, wedi’i thargedu. Mae Ysgolion Coedwig yn seiliedig ar agwedd gyfannol at iechyd meddwl a lles ac effeithiau buddiol dysgu mewn lleoliad awyr agored hamddenol ond mewn strwythur ble gallant deimlo y gall eraill gydnabod eu cyflawniadau (gweithwyr ieuenctid a’r ysgol ac ati) ond hefyd, yn bwysicach, nhw eu hunain. Mae hyn yn arwain at fwy o hyder a hunan-barch ac mae’n cael effaith bositif ar iechyd meddwl a lles.
- Prosiect “Beth ddigwyddodd?” - Lansiodd tîm Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint fideo unigryw yn amlygu mewnwelediad i’r pandemig Covid-19 a’r ymatebion iddo gan bobl ifanc a sut yr oedd wedi effeithio ar eu bywydau.

Mae'r fideo'n dangos actorion ifanc yn lleisio meddyliau a theimladau pobl ifanc lleol ac mae'r fideo wedi'i sgriptio yn dangos gwir adlewyrchiad o sut yr oeddent wedi ymdopi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a sut maent wedi addasu i newid.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

Ymgynghorodd y Gwasanaeth Ieuenctid â phobl ifanc o ran y gwasanaethau yr oedd arnynt eu hangen. Un o ganlyniadau'r ymgynghoriad oedd nad oedd pobl ifanc yn gwybod ble i droi am gymorth mewn argyfwng. Ymchwiliodd y Tîm i'r gwefannau a sefydliadau gorau a allai gefnogi pobl ifanc, gan roi'r wybodaeth i gyd ar un daflen, sydd wedi cael ei dosbarthu'n eang.




## Amcan 3: Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw

**Yn ystod y 12 mis diwethaf:**

- Fe wnaethom gwblhau ein 7fed Archwiliad Tâl Cyfartal yn cynnwys y nodweddion Anabledd, Rhywedd ac Oedran, Ethnigrwydd a Chrefydd a Chred, gan ystyried bylchau cyflog cymedr a chanolrif yn llawn, a chyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Tachwedd 2022. Mae adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan. Rhoddir crynodeb yn adran 5.0.
- O'r pump sydd wedi graddio o'r Project SEARCH, mae tri bellach mewn gwaith llawn amser o fwy na 16 awr yr wythnos, ac mae dau ohonynt yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Mae Project SEARCH yn rhaglen pontio i waith, sydd wedi ymrwymo i drawsnewid bywydau oedolion ifanc ag anabledd dysgu ac awtistiaeth neu'r ddau.

- O'r saith wnaeth raddio o raglen 2020, mae pump yn dal mewn gwaith llawn amser o 16 awr neu fwy yr wythnos. Mae'r graddedigion eraill mewn swyddi gwirfoddol ac yn gweithio â hyfforddwyr cyflogadwyedd i gael gwaith a thâl.
- Mae 23 o bobl a gefnogwyd gan Hft bellach mewn gwaith â thâl, mae 45 mewn lleoliadau gwirfoddol, 10 ar brofiad gwaith ac roedd nifer ohonynt yn chwilio am waith gyda chefnogaeth yr hyfforddwyr swyddi neu Project SEARCH. Mae Hft dan gontract gyda'r Cyngor i ddarparu a datblygu cyfleoedd Dydd a Gwaith ar draws y sir i oedolion ag anableddau dysgu.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

Yn dilyn cylchdro o swyddi yng nghynllun Gofal Ychwanegol Llys Raddington fel rhan o Project SEARCH, mae Leticia bellach yn cael ei chyflogi'n llwyddiannus gan y Cyngor fel cydlynydd gweithgareddau, yn cefnogi preswylwyr i fwynhau ystod o weithgareddau cymdeithasol a chrefft.

## Amcan 4: Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig

**Yn ystod 2021/22:**

- Adroddwyd am 265 achos o ddigwyddiadau casineb yn Sir y Fflint yn ystod cyfnod 2021/22.

| Math o ddigwyddiad | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'i ysgogi gan hil | 37 | 84 | 76 | 99 | 92 | 126 |
| Homoffobig | 6 | 26 | 29 | 40 | 39 | 61 |
| Yn ymwneud ag anabledd | 9 | 8 | 14 | 20 | 38 | 65 |
| Trawsffobig | 1 | 0 | 1 | 4 | 7 | 7 |
| Crefyddol | 6 | 5 | 9 | 5 | 7 | 6 |
| Cyfanswm | 59 | 123 | 129 | 168 | 183 | 265 |

Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o droseddau casineb yn ymwneud ag anabledd ac wedi eu hysgogi gan hil yn ystod 2021/22 - ymddengys bod hyn oherwydd y cynnydd mewn anghydfod mewn cymdogaethau yn ystod

cyfyngiadau COVID-19. Dywed Heddlu Gogledd Cymru fod y cynnydd hwn yn gyson â'r llun rhanbarthol a chenedlaethol ac yn adlewyrchu'r ymgyrchoedd cenedlaethol sydd wedi bod i annog mwy o adrodd am droseddau. Mae yna fwy o ymgysylltu wedi bod hefyd rhwng grwpiau yn Sir y Fflint megis Hft a Heddlu Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd adrodd.

- Er bod cynnydd wedi bod yn nifer yr adroddiadau am droseddau casineb, teimlir o hyd nad oes digon o adrodd am achosion o droseddau casineb yng Ngogledd Cymru; bydd y gwaith yn parhau i annog mwy o adrodd. Mae troseddau casineb yn eitem sefydlog yn Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.
- Mae aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i annog pobl i adrodd am achosion o droseddau casineb yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref bob blwyddyn. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi negeseuon trydar ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill i annog pobl i adrodd am drosedd casineb.
- Fe wnaethom chwifio'r faner Traws ar 20 Tachwedd i nodi'r Diwrnod Cofio Trawsryweddol er cof am unigolion trawsryweddol sydd wedi marw yn dilyn trais trawsffobia.
- Fe wnaethom chwifio'r faner Enfys yn ystod mis hanes LHDT i amlygu ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Mae'r faner Enfys yn symbol a gydnabyddir fel dathliad o'r gymuned LHDTC+.
- Fe wnaethom gefnogi'r Ymgyrch Rhuban Gwyn er mwyn dod â thrais yn erbyn merched i ben.
- Mae dros 73% o weithwyr bellach wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn merched.
- Mae 22% (1,292) o weithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern.
- Parhaodd Cymorth i Ddioddefwyr i ddarparu hyfforddiant ar Drosedd Casineb, ac fe fynychodd ein gweithwyr.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

Fe wnaethom lansio #ByddGaredigArLeinCSFf ar Ddiwrnod Rhyngrwyd Diogelach.

Y nod yw codi ymwybyddiaeth o ddefnydd cyfrifol o'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol a rhoi stop ar seiber-fwlio yn ein cymunedau. Mae hyn yn golygu ailystyried ymddygiad ar-lein a chroesawu parch, empathi a charedigrwydd.

Mae'r ymgyrch hefyd yn hyrwyddo defnyddio sianelau digidol yn ddiogel a phositif wrth gyfathrebu â gwasanaethau'r Cyngor.

Mae tudalen bwrpasol wedi'i chreu ar ein gwefan https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Be-Kind-Online/Flintshire-FCCBeKindOnline-Pledge.aspx i bobl wneud 5 addewid i fod yn garedig ar-lein. Gellir gwneud addewidion fel unigolyn (unigolyn ifanc neu oedolyn), ysgol, busnes neu glwb/sefydliad cymunedol.

## Amcan 5: Cynyddu mynediad i gyfrannu at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig

**Yn ystod 2021/22:**

- Mae Lleisiau Ifanc yn Lleisio Barn (YVSO), grŵp o bobl ifanc rhwng 13 ac 18 oed sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal, wedi parhau i gyfarfod ar-lein a chynrychioli lleisiau plant sy'n derbyn gofal yn Sir y Fflint.
- Cynhaliwyd gweithdai a thrafodaethau am iechyd a pherthnasoedd a modelau maethu.
- Mae aelodau'r grŵp yn mynychu cyfarfodydd Fforwm y Gwasanaethau Plant yn rheolaidd, sy'n cynnwys Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr a chynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Plant ac Addysg. Yn y cyfarfodydd maent yn rhannu eu barn ar bynciau sydd wedi cynnwys Tai, addysg a chyngor ar iechyd rhywiol i bobl ifanc. Mynychodd y grŵp gyfarfod rhithiol cyntaf Fforwm y Gwasanaethau Plant ym mis Medi gan siarad am sut mae'r pandemig wedi effeithio arnynt.
- Mae'r grŵp hefyd wedi cyfweld ymgeiswyr ar gyfer staff newydd y prosiect Therapi Aml Systematig a swydd Rheolwr y Tîm Sefydlogrwydd a'r Llys.
- Cyfrannodd pobl sy'n byw â dementia, eu gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw at ddatblygiad Strategaeth Dementia leol.
- Mae Gofalwyr Ifanc wedi cymryd rhan yn natblygiad manyleb gwasanaeth newydd i helpu i gomisiynu gwasanaeth newydd i Ofalwyr Ifanc.
- Roedd yr ymgysylltu yn anffurfiol, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd. Cymerodd pedwar gofalwr ifanc ran hefyd yn y broses gaffael, gan gyfweld yr holl sefydliadau oedd yn ymgeisio drwy ofyn cwestiynau o'u dewis nhw a lleisio barn gyfartal ar ganlyniad yr ymarfer caffael.
- Mae gofalwyr ifanc, gyda chefnogaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru yn parhau i fod yn weithgar yn y gwaith o ddatblygu cerdyn adnabod rhanbarthol i ofalwyr ifanc, drwy ddylunio posteri a gwybodaeth. Mae'r Grŵp Llywio Cerdyn Adnabod hefyd wedi croesawu gofalwr ifanc i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau yn defnyddio eu profiad bywyd.
- "Lleisiau i Gael eu Clywed" yw grŵp cyfranogiad Hft ar gyfer y bobl maent yn eu cefnogi. Mae'r grŵp y cyfrannu at ymgynghoriadau ar faterion gwahanol sy'n effeithio ar y gwasanaeth, casglu adborth/awgrymiadau ar ddatblygiadau a'i ddefnyddio i rannu gwybodaeth. Mae'r grŵp wedi helpu i ddatblygu Manylion am yr Unigolyn a Hysbyseb Swydd ar gyfer Gweithwyr Cefnogi yn dilyn sesiwn ble buont yn penderfynu beth sy'n gwneud Gweithiwr Cefnogi da a drwg. Bu'r grŵp hefyd yn adolygu a datblygu polisi ysmygu ar gyfer yr holl safleoedd yn Sir y Fflint.
- Ymgynghorwyd hefyd â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd am sut yr hoffent weld y gyllideb taliad gweini yn cael ei ail-fuddsoddi i'r gwasanaeth, ymhlith yr awgrymiadau oedd clwb cinio, teithiau allan a mwy o weithgareddau ar-lein. Mae rhywfaint o'r cyllid hefyd wedi cael ei fuddsoddi i ddatblygu rhaglen gyntaf Project SEARCH yn y DU i rai dros 25 oed.
- Mae teuluoedd unigolion ag Anableddau Dysgu wedi bod yn rhan o gomisiynu gwasanaeth byw â chymorth newydd i'w hanwyliaid. Cytunodd dau deulu i fod

yn rhan o’r broses gomisiynu, gan fynychu sawl cyfarfod ar-lein, darparu adborth dros e-bost a bod yn aelodau o’r panel cyfweld a gwerthuso.

- Dylanwadodd lleisiau’r teuluoedd ar y gwasanaeth oedd yn cael ei gomisiynu ac roeddent yn rhan o ddethol y darparwr fyddai’n darparu’r gofal gorau i’w hanwyliaid yn eu barn nhw. Fe wnaethant helpu i ddatblygu cynllun pontio hefyd oedd yn iawn iddyn nhw a’u perthynas. Roedd y teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u bod yn rhan o’r broses gyfan, a’u bod wedi cael cyfle i weld y prosesau y mae awdurdod lleol yn mynd drwyddynt wrth ddatblygu gwasanaethau. Cafodd y swyddogion oedd yn cynnal y broses well dealltwriaeth o ganlyniadau lles yr unigolion oedd angen gofal a chymorth.
- Cafodd 39% o gymorth yn y cartref ei ddarparu drwy daliad uniongyrchol.
- Fe wnaethom nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched drwy ddathlu gyda’n cynghorwyr benywaidd. Mae ychydig dros 24% o’n cynghorwyr yn ferched, ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ein cynghorwyr fel rhan o’n cynllun gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

Cafodd teuluoedd ac unigolion wahoddiad i weld safle cyfleoedd gwaith newydd arfaethedig a rhoi eu mewnbwn ar sut y dylid ei ddatblygu.
Mae’r gwaith adeiladu, a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2021, yn cynnwys pedair ardal weithgareddau ac ardal newid fawr hygyrch ar gyfer gofal personol i oedolion ag anableddau dysgu. Cafodd yr unigolion a’r teuluoedd ddylanwad ar gynllun a strwythur y safle newydd. Gan eu bod wedi cael eu cynnwys yn gynnar, roeddent yn gallu gwneud cyfraniadau ystyrlon i’r dyluniad terfynol. Roeddent hefyd yn gallu dylanwadu ar enw’r adeilad newydd - Hwb Dyffryn.


[1]

[1] Cynghorwyr benywaidd Sir y Fflint yn dod at ei gilydd i gefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2022

## Amcan 6: Gwella safon byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

**Yn ystod 2021/22:**

- Mae'r Cyngor wedi caffael Tŷ Nyth i ddarparu llety preswyl tymor byr i bedwar o blant, ac un ystafell frys, i blant rhwng 11 ac 18 oed.
- Cafodd y gwaith o ymestyn Cartref Gofal Preswyl Marleyfield House ei gwblhau ym mis Mai 2021. Mae'n darparu 32 o ystafelloedd gwely ychwanegol ag ardal awyr agored personol. Defnyddir 16 o'r gwelyau ar gyfer arhosiad tymor byr, sy'n cefnogi rhyddhau o'r ysbyty drwy fodel 'rhyddhau i adfer ac asesu', ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn ar gyfer y rhai sy'n addas i adael yr ysbyty ond sydd angen asesiad pellach a chefnogaeth therapiwtig gan dîm pwrpasol ar y safle cyn dychwelyd adref.
- Agorwyd cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd, Plas yr Ywen. Mae cyfleusterau Gofal Ychwanegol yn ddewis hynod o boblogaidd i bobl hŷn. Maent yn cynnig y cyfle i fyw'n annibynnol ond wrth gael cefnogaeth y tîm gofal a chymorth ar y safle, os oes angen.
- Agorwyd tŷ Glan y Morfa i ddarparu llety a rennir ar gyfer gofal 'camu i fyny' / 'camu i lawr' dros dro i bobl ag anabledd corfforol. Mae'n bosibl eu bod yn ddigartref, neu'n methu â dychwelyd adref dros dro oherwydd bod addasiadau'n cael eu gwneud i'w cartref presennol. Pan fyddant yn y tŷ, fe'u cefnogir i wella eu lles a'u hannibyniaeth, fel y gallant fyw mor annibynnol â phosibl pan fyddant yn dychwelyd i'w cartref eu hunain neu i lety mwy parhaol.
- Agorwyd Llys yr Iâl, yn darparu rhandai i oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth, neu anableddau corfforol. Pan fo angen a asesir, mae unigolion yn cael y gofal a'r cymorth priodol i'w galluogi i fyw'n annibynnol. Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau ac mae pob unigolyn wedi dod yn fwy annibynnol ers symud yno.
- Dyblodd y gyfradd cwblhau addasiadau bach/blaenoriaeth i dai y Cyngor.
- Fe wnaethom gwblhau 654 o addasiadau i gartrefi ein tenantiaid anabl i sicrhau bod eu llety yn addas i'w hanghenion ac i'w galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Roedd y rhain yn amrywio o addasiadau bach i fawr:
    - Gosod rheiliau llaw, seddi toiled, tapiau arbenigol, rampiau.
    - Lledu drysau, adeiladu llwybrau.
    - Gosod cawodydd, lifftiau grisiau a theclynnau codi.
    - Gwneud addasiadau mewnol ac allanol mawr i eiddo.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau adsefydlu i bobl o Affganistan a Syria a theuluoedd sy'n ffoi'r rhyfel yn Wcráin. Ni yw'r unig awdurdod yng Ngogledd Cymru sy'n buddsoddi mewn gweithwyr achos sy'n darparu pecynnau cyfannol o gefnogaeth, ynghyd â phartneriaid statudol a thrydydd sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn fel arfer da. Mae un unigolyn a gefnogwyd yn wreiddiol drwy'r cynllun adsefydlu bellach yn cael ei gyflogi gan y Cyngor fel gweithiwr achos.

## Amcan 7 Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi

Fe wnaethom barhau i gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi yn ystod 2021/22.

**Yn ystod 2021/22:**

- Rhoddwyd cyflwyniadau am y ddyletswydd newydd i bob aelod etholedig sy'n eistedd ar bwyllgorau craffu.
- Mae canolbwynt lles ariannol ar gael ar y fewnrwyd yn rhoi canllawiau ac adnoddau i weithwyr am gyllidebu ac arbedion.
- Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys canolbwynt costau byw sy'n cynnwys ffynonellau cymorth ariannol a chefnogaeth sydd ar gael i unigolion ac aelwydydd.
- Cafwyd 1224 cais am Daliadau Dewisol Tai a rhoddwyd cyngor a chefnogaeth fel rhan o'r broses ymgeisio.
- Cafodd £395,349 (dyraniad Taliadau Dewisol Tai a chyllid ychwanegol gan y Llywodraeth) ei wario yn cefnogi aelwydydd oherwydd effaith y pandemig a chostau cynyddol yr argyfwng costau byw.
- Dyfarnwyd dros 3,000 o geisiadau am Daliadau Cymorth Hunan-ynysu.
- Cafodd dros 140 o aelwydydd gyngor a chefnogaeth arbenigol, yn cynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol, Cymru Gynnes, Dŵr Cymru, Gwasanaethau Cefnogi Pobl, Prydau Ysgol am Ddim a Gwisgoedd Ysgol.
- Cafodd dros 2000 o brydau eu danfon i deuluoedd dros y gwyliau hanner tymor a'r Nadolig.
- Daeth y Polisi Grant Dewisol (2021) i rym, sy'n golygu y gellid cymeradwyo addasiadau o lai na £10,000 heb brawf modd. Roedd hyn yn gyfystyr â phrosesu 40% o addasiadau maint canolig fel rhai dewisol.
- Cafodd 8,672 o geisiadau eu prosesu ar gyfer y Cynllun Taliad Tanwydd y Gaeaf a dyfarnwyd £200 i 6,682 o gwsmeriaid cymwys tuag at eu biliau tanwydd.
- Cafodd 10,070 o gwsmeriaid £150 tuag at gostau eu biliau, ar ben y 32,000 o gwsmeriaid sy'n cael £150 yn awtomatig. Fe wnaethom dalu dros 90% o daliadau'r prif gynllun Costau Byw (un o ddau awdurdod lleol â chanlyniad mor uchel yn erbyn cyfartaledd o 60% drwy Gymru).
- Roedd nifer yr aelwydydd a gefnogwyd i gynyddu effeithlonrwydd ynni eu cartrefi ac felly gyfrannu at ostyngiad mewn tlodi tanwydd yn uwch na'r targed ar gyfer y flwyddyn, oherwydd cyflawnwyd 1293 o fesurau yn erbyn y targed o 1,200.
- Roedd nifer yr aelwydydd bregus a gefnogwyd neu a atgyfeiriwyd i leihau tlodi tanwydd a gwella iechyd a lles yn uwch na'r targed oherwydd cefnogwyd 204 o aelwydydd yn erbyn targed o 200.
- Fe wnaethom gymeradwyo gwerth £424,000 o fenthyciadau 'tŷ i gartref' fel bod Cartrefi Gwag yn cael eu defnyddio eto.
- Yn 2021, cafodd dros 160 o blant a phobl ifanc 5-12 oed fudd o'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol mewn 6 ysgol, a chafodd dros 2000 o brydau eu gweni yn ystod y rhaglen 12 diwrnod. Mae'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol yn darparu prydau iach, addysg am fwyd a maeth, ymarfer corff a sesiynau cyfoethogi i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf.

- Fel rhan o’r Grant Urddas Mislif, darparwyd gwasanaeth tanysgrifio i’r cartref. Roedd hyn yn golygu bod cynnyrch yn cael eu danfon yn uniongyrchol i gartrefi plant a phobl ifanc gan ddarparwr addas. Roedd arolwg o ddefnyddwyr y gwasanaeth hwn yn bositif iawn, roedd 96% yn cytuno bod y cynnyrch yn cael eu danfon mewn pecynnau cynnil; dywedodd 92% y byddent yn argymell cynnyrch mislif y darparwyr i eraill a byddai 91% yn ystyried defnyddio’r darparwr eto.
- Cafwyd 2057 o archebion yn ystod y 3 mis, mwyafrif y rheiny gan ddysgwyr ym mlynyddoedd 6, 7, 8, 9 a 10.

**Enghraifft - Gwneud gwahaniaeth**

**Hey Girls Sir y Fflint**

Comisiynwyd Hey Girls i ddanfon cynnyrch mislif yn uniongyrchol i gartrefi genethod a merched ifanc rhwng 8-18 oed oedd yn mynychu ysgolion yn Sir y Fflint (yn cynnwys y rhai sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref). Byddai’r bobl ifanc eu hunain, neu eu rhieni ar eu rhan, yn dewis y cynnyrch i’w danfon o opsiynau ecogyfeillgar ar wefan bwrpasol Hey Girls. Roedd y rhain yn cynnwys cynnyrch amldro a thafladwy.
Cafodd pob ysgol wybodaeth briodol i’w rhannu â’i dysgwyr a theuluoedd am yr ymgyrch hon, fyddai yn ei dro yn cyrraedd cymunedau sy’n cael eu tanwasanaethu.

Roedd manteision y dull hwn yn golygu y gallai pobl ifanc ddewis cynnyrch o’u dewis nhw a’u derbyn yn gynnil.

## 4. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

4.1 Datblygwyd systemau o fewn portffolios a gwasanaethau i gofnodi a monitro proffil ein cwsmeriaid yn ôl nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, mae pob gwasanaeth yn wahanol ac nid yw pob nodwedd warchodedig yn cael eu cofnodi ar bob system. Nid oes digon o ddata ar gael ar gyfer dadansoddiad manwl ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau. Mae’n gam gweithredu parhaus i wella’r dull o gasglu data ar draws gwasanaethau.

4.2 Mae’r categorïau a ddefnyddir i gasglu data amrywiaeth yn dod o Gyfrifiad 2011, bydd data i’r dyfodol ar gael o Gyfrifiad 2021. Mae niferoedd eithaf isel mewn rhai cymunedau sy’n gwneud dadansoddiad ystadegol yn anodd, ac yn yr achosion hyn, fe ddefnyddir canlyniadau ymchwil ac adroddiadau cenedlaethol. Ni fydd canlyniadau llawn Cyfrifiad 2021 ar gael nes diwedd 2022 ac ymlaen.

4.3 Er gwaetha’r heriau i gasglu data, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i’n prosesau. Bellach rydym yn:

- cofnodi manylion ethnig defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn bellach yn faes gorfodol ar gronfa ddata cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol, PARIS.
- monitro proffil tenantiaid, ymgeiswyr digartrefedd a phobl ar y rhestrau aros am dai.
- cofnodi proffil disgyblion ysgol a lefelau cyrhaeddiad ysgolion.
- cofnodi a monitro data amrywiaeth i sicrhau nad oes cynrychiolaeth anghymesur o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi gan y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid.

4.4 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud ymchwil ar ran Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, rhwydwaith o holl Swyddogion Cydraddoldeb cyrff cyhoeddus Gogledd Cymru, i helpu i nodi anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau gwarchodedig. Mae'r wybodaeth hon ar gael i wasanaethau ei defnyddio.

4.5 Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi datblygu enghraifft o ffurflen monitro cydraddoldeb gyda nodyn canllaw Deg Awgrym i'w Cofio. Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ymhlith y categorïau monitro cydraddoldeb a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru a bydd yn cyfrannu at feincnodi mwy effeithiol.

4.6 Cesglir data ansoddol drwy ddulliau eraill megis arolygon a grwpiau ffocws a thrwy ymgysylltu â grwpiau lleol megis:

- Fforwm Anabledd Sir y Fflint
- Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint.
- Cysylltiadau ffydd
- Fforwm Pobl Hŷn
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Race Equality First
- Cynghorau Ysgolion
- Stonewall Cymru
- Travelling Ahead sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr
- Grŵp trawsrywiol Unique
- Grŵp Gweithredu i rai dros 50 oed

4.7 Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gryfhau ymgysylltu. Yn ystod 2021/22, fe wnaeth y Tîm Cydlyniant Cymunedol:

- ddatblygu sesiynau Galw Heibio Diwylliannol Cymunedol bob wythnos yn y sir, sydd wedi arwain at fwy o ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned Albaniaidd a Phwylaidd;
- ailsefydlu cysylltiadau â Rhwydwaith Merched Tsieineaidd;
- cyfrannu at y model ymgysylltu Sgwrs Gymunedol i wella ymgysylltu â grwpiau nas clywir ganddynt yn aml i ddatblygu Cynllun Lles;
- cynnal cyfarfod Cyfnewid Diwylliant ar-lein i aelodau o ystod o gymunedau gyfnewid a rhannu diwylliannau. Mae nifer fechan o aelodau gweithredol o gymunedau Cymreig, Syriaidd, Pwylaidd, Portiwgeaidd, Tsieineaidd,

- Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywedd a rhai sy'n Cwestiynu (LHDTC+) sy'n dymuno rhannu a chydweithio.

### 4.8 Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol

Caiff proffil cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth ei gymharu yn erbyn proffil y gymuned er mwyn adnabod meysydd â gormod o gynrychiolaeth/heb gynrychiolaeth neu sy'n tan gyflawni sydd yn galluogi Gwasanaethau i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae defnyddio data yn y modd yma'n cynorthwyo gwasanaethau i ganfod meysydd posibl o wahaniaethu a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu ac i adnabod y cyfle i ehangu cyfle cyfartal drwy osod targedau gwelliant a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Defnyddiwyd y wybodaeth yma i nodi Amcanion cydraddoldeb lleol y Cyngor hefyd.

Defnyddir cymariaethau o lefelau boddhad a chwynion a gwybodaeth o grwpiau ffocws hefyd i adnabod unrhyw feysydd o wahaniaethau posibl a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu a meysydd o densiwn cymunedol sydd yn eu tro yn cyfrannu at ganfod cyfleoedd i ehangu cydraddoldeb a meithrin perthnasau da.

### 4.9 Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae proffil amrywiaeth llawn o'r gweithlu yn cael ei gyhoeddi ar wahân ac mae'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol dan ddyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

### Cyfansoddiad y Gweithlu

| Merched | % Merched | Dynion | % Dynion |
|---|---|---|---|
| 5307 | 77.4% | 1542 | 22.6 % |

Cesglir gwybodaeth ansoddol drwy adborth gan gynrychiolwyr o'r Undebau Llafur yn y Cyd Bwyllgor Ymgynghori Undeb Llafur a thrwy rwydweithiau gweithwyr.

Defnyddir gwybodaeth ansoddol a meintiol i ddylanwadu ar asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar bolisïau ac arferion Adnoddau Dynol ac i adnabod meysydd posibl/gwirioneddol o anghydraddoldeb sydd angen ymchwiliad pellach.

## 5.0 Cyflog Cyfartal

5.1 Cyflog cyfartal yw talu yr un cyflog i ddynion a merched am wneud gwaith cyfartal fel y diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae tri math o waith cyfartal:

- mae gwaith tebyg yr un fath neu'n debyg yn gyffredinol. Mae'n cynnwys tasgau tebyg sydd angen gwybodaeth a sgiliau tebyg, ac nid yw unrhyw wahaniaethau yn y gwaith yn bwysig yn ymarferol.
- mae gwaith a ystyrir yn gyfartal wedi cael ei ystyried dan gynllun gwerthuso swyddi dilys ei fod o werth cyfartal o ran pa mor anodd ydyw.
- nid yw gwaith o werth cyfartal yn debyg ac nid yw wedi ei ystyried i fod yn gyfartal, ond mae o werth cyfartal o ran disgwyliadau fel ymdrech, sgil a gwneud penderfyniadau.

O safbwynt y gofynion Cyflog Cyfartal sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb, bydd y Cyngor yn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu o ran cyflog o fewn ei strwythurau cyflog ac y gellir cyfiawnhau'r holl wahaniaethau cyflog yn wrthrychol drwy ddefnyddio'r systemau a phrosesau Gwerthuso Swyddi a brofwyd o ran cydraddoldeb, ac sy'n cysylltu cyflogau'n uniongyrchol â gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r swydd.

5.2 Mae crynodeb o'r Archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol isod yn ôl rhywedd, anabledd, ethnigrwydd a chrefydd, cafwyd y data o system AD a Chyflogau'r Cyngor, "iTrent" ar 31 Mawrth 2022. Ni chafodd gweithwyr wrth gefn eu cynnwys yn y data a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, cafodd gweithwyr dros dro eu cynnwys. Dadansoddwyd data ar gyfer yr holl staff, beth bynnag oedd eu telerau ac amodau, i gyfrifo'r bwlch cyflog at ei gilydd rhwng y rhywiau, gyda dadansoddi pellach yn canolbwyntio ar grwpiau penodol o weithwyr.
Mae'r Archwiliad Cyflog Cyfartal llawn ar gael ar ein gwefan.

**5.3 Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau**
5.3.1 O'r data a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Cyngor 6849 o swyddi (wedi eu meddiannu). Nid cyfrif pennau a wnaed oherwydd mae gan nifer sylweddol o staff nifer o wahanol swyddi ar draws y sefydliad. Mae hyn yn gynnydd o 72 (swyddi wedi'u meddiannu) o archwiliad 2021.

**Rhyw**

| Merched | % Merched | Dynion | % Dynion |
|---|---|---|---|
| 5307 | 77.4% | 1542 | 22.6 % |

22.6% 77.4%



5.3.2 Mae 6849 o swyddi parhaol wedi'u meddiannu (cofnodion staff) ar gyfer gweithwyr i Gyngor Sir y Fflint ar draws yr ystod lawn o delerau ac amodau cyflogaeth. Nid cyfrif pennau a wnaed oherwydd mae gan nifer sylweddol o staff nifer o wahanol swyddi ar draws y sefydliad.

Mae’r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o’r holl delerau ac amodau, niferoedd y rhywiau a’r cyflogau cyfartalog ar gyfer pob grŵp.

***Tabl 1: Cyflogau Cyfartalog Dynion a Merched ar wahanol delerau ac amodau***

| **Tabl Cyflogau** | **Nifer y merched** | **Cyflog cyfartalog merched** | **Nifer y dynion** | **Cyflog cyfartalog dynion** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm cyflog cyfartalog** | **Bwlch cyflog rhwng y rhywiau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddogion / Prif Weithredwr | 2 | £94,837.00 | 4 | £108,771.25 | 6 | £104,126.50 | 12.81% |
| Penaethiaid Ysgol | 118 | £59,841.03 | 80 | £62,919.21 | 198 | £61,084.74 | 4.89% |
| Cyfraddau Lleol | | | 2 | £2,467.00 | 2 | £2,467.00 | 100.00% |
| Aelodau | | | 1 | £1,200.00 | 1 | £1,200.00 | 100.00% |
| Hyfforddeion Cenedlaethol | 11 | £16,291.54 | 19 | £17,179.94 | 30 | £16,873.59 | 5.17% |
| Tabl Cyflogau NJC 2019 | 4097 | £22,964.61 | 1128 | £27,167.51 | 5225 | £23,871.96 | 15.47% |
| Nyrsys Iechyd Galwedigaethol (Newydd) | 2 | £46,123.00 | 0 | £0.00 | 2 | £46,123.00 | Amherthnasol |
| Graddfa Gyflog Statws Sengl (2014) | 0 | £0.00 | 1 | £0.00 | 1 | £0.00 | Amherthnasol |
| Soulbury/Swyddogion Ieuenctid a Chymuned / Seicolegwyr Addysg | 19 | £51,913.00 | 3 | £53,441.00 | 22 | £52,121.36 | 2.86% |
| Athrawon - Graddfa Sylfaenol | 990 | £38,923.49 | 280 | £38,864.76 | 1270 | £38,910.54 | -0.15% |
| Athrawon - Heb Gymhwyso (wedi eu cymhathu) | 11 | £25,914.55 | 6 | £24,220.33 | 17 | £25,316.59 | -6.99% |
| Strwythur Cyflogau Unsain | 1 | £22,025.00 | 0 | £0.00 | 1 | £22,025.00 | Amherthnasol |
| Gweithwyr Ieuenctid | 43 | £25,465.56 | 17 | £25,144.41 | 60 | £25,374.57 | -1.28% |
| Nyrsys Iechyd Galwedigaethol | 2 | £38,973.50 | 0 | £0.00 | 2 | £38,973.50 | Amherthnasol |
| (gwag) | 11 | £0.00 | 1 | £0.00 | 12 | £0.00 | Amherthnasol |
| **Cyfanswm** | **5307** | **£26,929.70** | **1542** | **£31,208.67** | **6849** | **£27,893.80** | **13.71%** |

5.4.3 At ei gilydd, y cyflog cyfartalog ar gyfer merched ar draws yr holl raddfeydd a thelerau ac amodau yw £26,929.70 a’r cyflog cyfartalog ar gyfer dynion ar draws yr holl raddfeydd a thelerau ac amodau yw £31,208.67, gan roi **bwlch cyflog at ei gilydd rhwng y rhywiau o 13.71%**. Gwneir hyn yn defnyddio’r dull cymedrig o gyfrifo’r cyflog cyfartalog. Mae hyn yn ostyngiad bach ar y llynedd (2021) a oedd yn 13.75%.

## 5.5 Bwlch Cyflog Anabledd

***Tabl 2: Dadansoddiad anabledd o'r holl staff***

| Anabl | Nifer | Canran | Cyflog Cyfartalog |
|---|---|---|---|
| Na | 4316 | 63.02% | £28,135.96 |
| Anhysbys | 475 | 6.94% | £29,864.79 |
| Ia | 179 | 2.61% | £26,256.44 |
| (gwag) | 1879 | 27.43% | £26,993.98 |
| Cyfanswm | 6849 | 100.00% | £27,893.80 |

*Sylwer: Ni fu'n bosib rhoi darlun ystyrlon o gymhariaeth graddfa wrth raddfa ac o wahanu galwedigaethol oherwydd y niferoedd isel, fel y nodwn uchod.*

5.5.1 Mae nifer sylweddol o staff nad ydynt wedi datgan eu statws anabledd neu lle na wyddom beth yw eu statws ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd cyflawni dadansoddiad manwl o gyflogau yn ôl statws anabledd. O'r 6849 o gofnodion ar draws holl staff y Cyngor, mae 179 **(2.61%)** wedi datgelu anabledd, mae 4316 **(63.02%)** wedi datgan nad ydynt yn anabl ac mae 2058 **(30.04%)** heb ddatgelu unrhyw wybodaeth am anabledd. Mae'r data wedi gwella ers archwiliad 2021 (35.75% heb ddatgelu) gyda gostyngiad yn nifer y gweithwyr sydd heb ddatgelu eu statws anabledd. Fodd bynnag, mae **30.04%** o'r gweithlu yn dal heb ddatgelu.

## 5.6 Bwlch Cyflog Ethnigrwydd

.

***Tabl 3: Bwlch Cyflog Ethnigrwydd***

| Tarddiad Ethnig | Nifer | Canran | Cyflog Cyfartalog |
|---|---|---|---|
| Gwyn | 4552 | 66.46% | £28,604.76 |
| BME | 48 | 0.70% | £36,209.67 |
| Gwag/Mae'n well gen i beidio â dweud | 2249 | 32.84% | £26,422.06 |

5.6.1 Mae nifer helaeth o staff a ddewisodd beidio â datgelu eu tarddiad ethnig neu na wnaethant roi unrhyw wybodaeth am eu tarddiad ethnig (32.84%). Mae hyn wedi gwella ychydig ers 2021, pan oedd y ffigwr yn 33.98% ond mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gyflawni dadansoddiad trylwyr o gyflogau yn ôl tarddiad ethnig.

5.6.2 Dywedodd 4552 mai 'gwyn' oedd eu tarddiad ethnig **(66.46%)** a dywedodd 48 mai BME (Du neu Leiafrifol Ethnig) **(0.70%)** oedd eu tarddiad ethnig.

Dylid nodi fod proffil ethnig Cyngor Sir y Fflint yn 97.6% gwyn (cyfrifiad 2021 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae'r bwlch cyflog tarddiad ethnig yn -26.59% sy'n dangos bod gweithwyr BME yn ennill, ar gyfartaledd, 26.59% yn fwy na'r rheiny sydd wedi nodi mai Gwyn yw eu tarddiad ethnig. Fodd bynnag, oherwydd nad yw nifer uchel o weithwyr wedi nodi eu hethnigrwydd neu nid oes gennym y wybodaeth, ni ystyrir hyn yn ddigon trylwyr ar gyfer data ystyrlon.

### 5.7 Bwlch Cyflog Crefydd

***Tabl 4: Bwlch Cyflog Crefydd***

| Crefydd | Nifer | % | Cyflog Cyfartalog |
|---|---|---|---|
| Cristion | 2251 | 32.87% | £28,290.39 |
| Dim | 1402 | 20.47% | £26,623.97 |
| Gwag/Mae'n well gen i beidio â dweud | 3077 | 44.93% | £28,002.84 |
| Ddim yn Gristion | 119 | 1.74% | £26,332.46 |
| Cyfanswm | 6849 | 100.00% | £27,893.80 |

5.7.1 Dywedodd **32.87%** o'r holl staff mai Cristnogaeth oedd eu crefydd neu gred a dywedodd **1.74%** fod ganddynt grefydd neu gred arall (Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd, Sikhaidd neu arall), gyda 20.47% yn datgan dim crefydd. Ar gyfer **44.93%** nid yw crefydd na chred yn hysbys. Fodd bynnag, oherwydd nad yw nifer fawr o weithwyr wedi nodi eu crefydd neu nid oes gennym y wybodaeth, ni ystyrir hyn yn ddigon trylwyr ar gyfer data ystyrlon.

### 5.8 Cau'r Bwlch Cyflog

5.8.1 Hyd yn hyn rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau, er enghraifft:

- Cyflwyno strwythur talu a graddio newydd yn Ebrill 2019, gan gynnwys cyflwyno graddfeydd Uwch Reolaeth er mwyn lleihau'r bwlch cyflog rhwng y Prif Swyddogion a gweithwyr eraill.
- Cynnal a chadw'r sgoriau gwerthuso swyddi yn barhaus er mwyn atal graddfeydd rhag llithro a sicrhau dull cyson o gymhwyso'r cynllun gwerthuso swyddi.
- Polisïau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith cynhwysfawr, er mwyn annog gweithlu mwy hyblyg.

5.8.2 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn bwriadu parhau i fynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- Monitro rhyw - bydd ein data yn cael ei loywi a'i ailgyhoeddi yn flynyddol a bydd y data yn aros ar ein gwefan ar gyfer dibenion cymharu.
- Canolbwyntio ar farchnata polisïau a gweithdrefnau sy'n ystyriol o deuluoedd.
- Adolygu'r ddarpariaeth o ffyrdd hyblyg ac amgen o weithio.
- Lleihau unrhyw effeithiau negyddol o strwythurau cyflog a graddio - adolygu ein strwythurau cyflog a graddio yn 2023/2024 i sicrhau bod ein strwythur cyflog a graddio fel sefydliad yn fodern, teg ac addas i'r diben. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rydym hefyd yn adolygu ac yn diweddaru ein proffiliau rôl staff cefnogi ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn addas i'r diben.
- Darparu hyfforddiant o bolisi i ymarfer i gefnogi rheolwyr i ddeall sut y gall eu rôl gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle.
- Byddwn yn parhau i ehangu'r amrywiaeth o brentisiaethau a gynigir gan sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu sgiliau mewn meysydd twf a galw sy'n gwella cyflogadwyedd.
- Lleihau bylchau mewn data - Mae bylchau yn parhau i fod yn ein data, a byddwn yn parhau i annog gweithwyr i ddiweddaru ei data amrywiaeth wrth ddechrau rolau newydd neu trwy borth hunan-weinyddu iTrent.

### 5.9 Crynodeb

5.9.1 Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gwella o un flwyddyn i'r llall, fodd bynnag rydym wedi gweld cynnydd bychan iawn eleni.

***Tabl 5: Bwlch cyflog rhwng y rhywiau fesul blwyddyn***

| Bwlch cyflog rhwng y rhywiau | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar y cyfan | 16.96% | 13.65% | 13.40% | 13.11% | 13.75% | 13.71% |
| NJC/Llyfr Gwyrdd | 18.60% | 16.22% | 15.45% | 15.00% | 15.37% | 15.47% |

## Blaenoriaethau

Ein pedair blaenoriaeth i ymdrin â'r bylchau y gwyddom amdanynt rhwng cyflogau yn ystod y 12 mis nesaf yw:

**Cam Gweithredu 1:**
Byddwn yn parhau i annog staff i gwblhau'r holiadur dewisol ar gydraddoldeb dros y flwyddyn nesaf drwy ddulliau amrywiol, megis:

- rhannu neges ddwywaith y flwyddyn i atgoffa pobl y gellir newid y wybodaeth, e.e. mewn sefyllfa lle mae aelod o staff wedi priodi neu wedi bod â salwch hirdymor.
- atgoffa unrhyw un sydd heb ei gwblhau i wneud hynny
- trafod â Rheolwyr Gwasanaeth unigol er mwyn darganfod y dulliau gorau o gyrraedd eu gweithlu

**Cam Gweithredu 2:**

- Byddwn yn parhau i gefnogi gweithio'n hyblyg fel mecanwaith i gefnogi merched a gweithwyr eraill gydag ymrwymiadau gofalu, addysgu adref neu ymrwymiadau eraill.
- Byddwn yn annog pobl i ddefnyddio'r cynnig absenoldeb rhiant a rennir.
- Byddwn yn parhau i adolygu a gwella ein cefnogaeth ar gyfer staff sy'n profi anabledd o ganlyniad i gyflwr iechyd meddwl.
- Byddwn yn adolygu ein gwiriadau meddygol cyn cyflogi, er mwyn annog trafodaethau gwell gyda staff o ddechrau eu cyflogaeth, o ran anabledd/cyflyrau iechyd sylfaenol, er mwyn helpu i leihau stigma/pryderon o ran adrodd am anabledd, a'n galluogi ni i ganfod a gwneud addasiadau rhesymol.
- Byddwn yn gweithio gyda'r staff presennol mewn perthynas â chydnabod beth mae anabledd yn y gweithle yn ei olygu er mwyn gwella ein lefelau adrodd a deall ein cynrychiolaeth anabl, a'n galluogi ni i gefnogi eu cynnydd yn well / gwneud addasiadau rhesymol

## 6.0 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

6.1 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yw un o'r mecanweithiau a ddefnyddir i wneud cydraddoldeb yn rhan o'r brif ffrwd ac i gefnogi gwasanaethau i adnabod targedau cydraddoldeb penodol.

6.2 Mae templed rhanbarthol wedi'i ddatblygu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru sy'n cynnwys Cydraddoldeb, y Gymraeg ac effeithiau Economaidd-gymdeithasol. Cafodd hwn ei rannu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg i gael eu hadborth cyn iddo gael ei fabwysiadu gan aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae bellach wedi cael ei ymgorffori yn ein Hasesiadau Effaith Integredig a ddatblygwyd i gasglu'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer ystod o asesiadau effaith, yn cynnwys yr amgylchedd, iechyd, tlodi a'r Gymraeg. Mae nodiadau arweiniad ar gael ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig i gefnogi awduron yr Asesiadau Effaith Integredig.

6.3 Rhaid i Asesiadau Effaith Integredig gael eu cynnwys ym mhob un o'n hadroddiadau pwyllgor strategol i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall effaith eu penderfyniadau.

6.4 Mae adroddiadau pwyllgorau yn cael eu hadolygu o dro i dro i astudio sampl o asesiadau effaith er mwyn:

- Sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau gan awduron adroddiadau ar gyfer adroddiadau perthnasol
- Profi ansawdd y cynnwys
- Sicrhau eu bod ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau

Adroddir ar ganlyniadau'r adolygiad i Dîm Prif Swyddog y Cyngor gydag argymhellion ar gyfer gwelliannau.

6.5 Mae hyfforddiant asesiadau effaith pwrpasol ar gael i dimau yn ogystal â rhaglen e-ddysgu.

## 7.0 Hyfforddiant

7.1 Mae manylion ynglŷn â sut rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth o gydraddoldeb i'w gweld yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae dau becyn e-ddysgu penodol ar gydraddoldeb:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 - cwblhawyd gan 1,363 o weithwyr, 23% o'r gweithlu
- Cydraddoldeb yn y Gweithle - cwblhawyd gan 1,459 o weithwyr, 25% o'r gweithlu

7.2 Cefnogir y rhain gan becynnau e-ddysgu ar:

- Caethwasiaeth fodern - cwblhawyd gan 1292 o weithwyr, 22% o'r gweithlu
- Trosedd casineb - cwblhawyd gan 1400 o weithwyr, 23% o'r gweithlu
- Diogelu - cwblhawyd gan 1402 o weithwyr, 24% o'r gweithlu
- Ymwybyddiaeth traws - cwblhawyd gan 147 o weithwyr, 2% o'r gweithlu
- Pecyn e-ddysgu Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Merched a Cham-drin Domestig - cwblhawyd gan 4361 o weithwyr, 73% o'r gweithlu

7.3 Mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd yn cael eu cynnwys mewn:

- Rhaglenni'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM), ar bob lefel
- Modiwlau E-ddysgu i reolwyr newydd.
- Cyflwyniad corfforaethol

7.4 Yn ystod 2021/22, yn ogystal â'r rhaglenni e-ddysgu, darparwyd gweithdai ar:

- Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth Troseddau Casineb gan Gymorth i Ddioddefwyr.
- Darparwyd hyfforddiant ar Gaethwasiaeth Fodern yn cynnwys Llinellau Sirol gan Heddlu Gogledd Cymru. Llinellau sirol yw pan gaiff cyffuriau anghyfreithlon eu cludo o un ardal i'r llall, yn aml ar draws ffiniau heddlu ac

awdurdod lleol, ac fel arfer gan blant neu bobl ddiamddiffyn sy'n cael eu gorfodi gan gangiau.

- Hwylusodd y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol weithdai ar:
  - Effaith chwaraeon ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ieuenctid
  - Ymwybyddiaeth o Sipsiwn a Theithwyr
  - Caethwasiaeth Fodern

## 8.0 Caffael

8.1 Mae manylion am sut y caiff cydraddoldeb ei ymgorffori i'r broses Caffael wedi'i nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae cwestiynau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn ein holiadur cyn-gymhwyso ar gyfer pob tendr. Hefyd, mae Caethwasiaeth Fodern wedi cael ei gynnwys fel elfen yn yr holiadur, mae'n edrych ar y camau y mae contractwyr arfaethedig yn eu cymryd i ddileu caethwasiaeth fodern yn eu gweithlu a chadwyni cyflenwi. Hefyd, mae cymalau ar werth cymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn contractau dros £1 miliwn; mae contractau o £10,000 yn cynnwys elfen o werth cymdeithasol yn y dulliau sgorio. Rydym wedi cymeradwyo strategaeth newydd i gynyddu'r gwerth cymdeithasol sy'n cael ei greu o'n gweithgaredd caffael. Mae cydraddoldeb yn cael ei gynnwys yn ein cymalau budd cymunedol. Bydd adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys canlyniadau gwerth cymdeithasol megis cynnydd mewn cyfleoedd prentisiaethau a chyflogaeth a chanlyniadau iechyd a lles.

8.2 Rydym wedi cofrestru â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Rydym wedi ymrwymo i set o weithredoedd i fynd i'r afael â chyflogaeth anghyfreithiol ac annheg. Rydym yn cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern, sy'n nodi'r camau fyddwn ni'n eu cymryd i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

## 9.0 Casgliad

9.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd rydym yn ei wneud i fodloni'r dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus cyffredinol a phenodol. Fodd bynnag, mae'n glir ei bod wedi bod yn heriol casglu rhywfaint o'r data i fonitro cynnydd. Ein blaenoriaethau yw:

- Parhau i gasglu data i gefnogi dadansoddi cadarn - bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio tuag at gydymffurfio â Chyfrifiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.
- Datblygu cyfres o ddogfennau recriwtio hygyrch i sicrhau bod y broses yn gynhwysol ac yn hygyrch i'r gymuned anableddau dysgu.
- Symud Cartref Gofal Croes Atti i adeilad modern, gyda 25 o ystafelloedd newydd ychwanegol, gan ddyblu'r lleoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd bron iawn, gyda chapasiti ychwanegol ar gyfer darpariaeth 'rhyddhau i adfer ac asesu' yn y sir.
- Adolygu ein strwythurau cyflog a graddio yn 2022 i sicrhau bod ein strwythur cyflog a graddio fel sefydliad yn fodern, teg ac addas i'r diben.
- Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i gyflawni cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru wrth-hiliol.

**Diolch yn fawr am ddarllen Adroddiad Blynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021/22.**

**Atodiad 1 Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020- 2024**

**Cynnydd 2021/22**

| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1 2021/22** | | |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol gan gynnwys canlyniadau i bobl hŷn a phobl anabl.** | | |
| **Cam Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |
| Byddwn yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau Iechyd, Lles a gofal cymdeithasol drwy ddarparu gofal a chymorth. | Rheolwyr Gwasanaethau | Mae hyn yn barhaus ac mae camau newydd yn cael eu datblygu i gyflawni hyn.<br>G |
| Byddwn yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros y gofal a'r cymorth maent yn ei gael, fydd yn lleihau anghydraddoldebau ymhellach i bobl â nodweddion gwarchodedig | Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Anabledd) | Parhaus ac mae camau pellach yn cael eu datblygu i'w rhoi ar waith yn ystod 2022-24<br>G |
| Sicrhau y gall pobl ag amhariad ar y synhwyrau yn cynnwys pobl sy'n fyddar/dall gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth a/neu ofal a chefnogaeth, gan leihau anghydraddoldeb i fynediad a chefnogaeth. | Rheolwr Comisiynu | Parhaus ac mae camau pellach yn cael eu datblygu i'w rhoi ar waith yn ystod 2022-24<br>G |
| Byddwn yn cynnig gofal a chefnogaeth yn rhagweithiol yn Gymraeg, gan leihau'r perygl o anghydraddoldeb neu wahaniaethu. | Rheolwr Comisiynu | Mae'r cynnig rhagweithiol yn cael ei gynnal drwy holl gyfathrebu ac ymgysylltu'r Gwasanaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymdeithasol, yn cynnwys asesiadau integredig o effaith ar gydraddoldeb<br><br>G |
| Byddwn yn cynnig Eiriolaeth yn rhagweithiol i bobl wrth asesu eu hanghenion am ofal a chefnogaeth, gan leihau’r perygl o anghydraddoldeb neu wahaniaethu. | Rheolwr Comisiynu | Parhaus ac mae camau pellach yn cael eu datblygu i’w rhoi ar waith yn ystod 2022-24<br><br>G |
| Byddwn yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau iechyd, lles a phersonol mewn lleoliadau gofal a chymorth, gan leihau’r tebygrwydd o anghydraddoldeb a gwahaniaethu. | Rheolwr Comisiynu | Parhaus ac mae camau pellach yn cael eu datblygu i’w rhoi ar waith yn ystod 2022-24<br><br>G |
| Byddwn yn cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig i aros yn annibynnol a gallu byw gartref, yn enwedig pan fydd oed neu anabledd yn effeithio arnynt. | Rheolwr Gwasanaeth (Pobl Hŷn) | Parhaus.<br><br>G |
| Byddwn yn cefnogi pobl cyn gynted â phosibl drwy ymyrraeth gynnar a chefnogaeth atal. | Rheolwyr Gwasanaethau | Parhaus ac mae camau pellach yn cael eu datblygu i’w rhoi ar waith yn ystod 2022-24<br><br>G |
| Datblygu a gweithredu model lleol o ‘Dîm o Amgylch yr Unigolyn’ er mwyn helpu’r unigolion hynny sy’n byw â dementia. | Rheolwr Comisiynu | Mae model newydd cymorth yn y cartref a’r gymuned wedi cael ei gyflwyno, yn cynnwys gweithwyr cefnogi seibiant yn ystod y nos, |

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithwyr cefnogi dementia a thîm gweithwyr proffesiynol therapïau perthynol i iechyd.<br><br>G |
| Rhoi cynllun gweithredu ar waith i sicrhau ein bod yn cadw ein statws o fod yn sefydliad sy'n "Gweithio tuag at Ddeall Dementia" | Rheolwr Comisiynu | Mae Strategaeth Ddementia Sir y Fflint wedi ei datblygu. Mae'n cyd-fynd â Strategaeth Ddementia Ranbarthol Gogledd Cymru a'r nod yw gwella bywydau pobl sy'n byw â dementia, eu gofalwyr a theuluoedd, mewn cymunedau mwy gwybodus a chefnogol.<br><br>G |
| Byddwn yn cefnogi gofalwyr i barhau yn eu rolau gofalu | Rheolwr Comisiynu | Rydym yn cefnogi gofalwyr ac yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl). Rydym hefyd wedi sefydlu rhwydwaith i gefnogi ein gweithwyr sy'n ofalwyr.<br><br>G |
| Datblygu cynllun gweithredu i ymateb i'r ymchwil rydym wedi ei gomisiynu i anghenion iechyd Teithwyr. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Asesiad o anghenion iechyd wedi'i gwblhau gan Iechyd Cyhoeddus |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru - aros am yr adroddiad terfynol.<br>G |
| Datblygu gwersyll dros dro i Deithwyr i leihau nifer y gwersylloedd heb awdurdod mewn lleoliadau nad ydynt yn ddiogel nac yn iach a gwella mynediad at wasanaethau iechyd. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Safle arfaethedig wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Aros am y canlyniad gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru.<br>G |
| Gweithio gyda'r Tîm Bydwragedd Cymunedol a'r Tîm Brechlynnau i wneud yn siŵr bod mwy o blant Teithwyr yn cael y brechlyn MMR (y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela). | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Gwaith ar y gweill gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>G |
| Rhoi strategaeth Iechyd a Lles ar waith i'n gweithwyr a chyflwyno mentrau i wella eu hiechyd meddwl. | Uwch Reolwr AD a DS | Mae'r Strategaeth yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd buddion iechyd ychwanegol ar gael fel rhan o'n llwyfan eWobrau. Rydym wedi cyflwyno canolbwynt lles ariannol ar y fewnrwyd.<br>Mae gwyliau blynyddol ychwanegol yn cael ei gyflwyno o fis Hydref 2022 i helpu â lles gweithwyr.<br>A |

**Amcan 2: Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwarchodedig a gweithredu strategaethau i wella lles**

| Cam Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|
| Rhoi system electronig ar waith i gofnodi ac adrodd ar fwlio'n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | System adrodd y ei lle ac yn cael ei defnyddio gan ysgolion.<br>G |
| Monitro Adroddiadau Arolygu Estyn a nodi unrhyw broblemau cydraddoldeb mewn ysgolion i dargedu cymorth i ysgolion | Uwch Reolwr Gwella Ysgolion | Ailddechreuodd Estyn yr arolygon yn ystod haf 2022. Mae unrhyw argymhellion gan arolygon yn cael eu holrhain drwy gylch gwella'r ysgol. Mae cynnydd yn erbyn argymhellion yn cael ei fonitro gan GwE a'r Awdurdod Lleol. Dim ond un argymhelliad sydd wedi nodi unrhyw broblemau cydraddoldeb - gwella amrywiaeth yn y cwricwlwm.<br>G |
| Monitro cydymffurfiaeth gan bob ysgol ar Barchu Eraill gan Lywodraeth Cymru (arweiniad statudol). | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | Gofyn i bob ysgol gwblhau pecyn archwilio diogelu ac adroddiad diwedd blwyddyn erbyn mis Mawrth 2022. Dynododd yr ymarfer hwn yr ysgolion nad oes ganddynt bolisi bwlio cyfredol. Bydd ysgolion yn cael camau gweithredu dilynol pan fydd yr archwiliadau / adroddiadau wedi cael eu dadansoddi.<br>G |

| | | |
|---|---|---|
| Monitro cyfraddau gwahardd fesul grwpiau gwarchodedig i dargedu cefnogaeth i ysgolion. | Uwch Reolwr Cynhwysiant | Mae'r gwaith monitro wedi dechrau ac mae'n cynnwys disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ogystal â nodweddion gwarchodedig.<br>Mae'r tîm yn ymdrin ag anghymesuredd posibl i ddisgyblion yn y cohort ADY.<br>Mae bechgyn yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol, yn gyson â thueddiadau cenedlaethol.<br>Monitro presenoldeb yn rheolaidd bob hanner tymor fel y gellir nodi ac ymdrin ag unrhyw bryderon yn gyflym.<br>G |
| Monitro absenoldeb cyson fesul nodweddion gwarchodedig | Uwch Reolwr Cynhwysiant | Cynhaliwyd adolygiadau data rheolaidd bob hanner tymor i nodi unigolion diamddiffyn. Ymwelodd y tîm Lles Cynhwysiant ag unrhyw blant a ddynodwyd eu bod yn ddiamddiffyn. Mae Swyddogion Lles Cynhwysiant wedi eu hyfforddi i broffilio tueddiadau mewn presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.<br>Sefydlu grŵp strategol i weithio gyda'r gymuned Teithwyr i wella ymgysylltiad ag addysg.<br>G |

| | | |
|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth am fwlio'n seiliedig ar hunaniaeth yn ystod yr wythnos gwrth-fwlio | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | Cydlynodd y Gynghrair Gwrth-fwlio Wythnos Gwrth-fwlio rhwng 15-19 Tachwedd 2021. Thema 2021 oedd 'Un Gair Caredig'. Rhannwyd gwybodaeth a chyfeirio at adnoddau ag ysgolion.<br>G |
| Sicrhau bod pob ysgol yn cael mynediad at hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | Ni ddarparwyd hyfforddiant yn 2021/22 gan nad oes gan Heddlu Gogledd Cymru gapasiti i'w ddarparu bellach. Rydym yn chwilio am ddarparwr newydd.<br>A |
| Sicrhau bod pob ysgol gynradd yn cael mynediad at "Cymru'n Cyd-dynnu" yn cynnwys adnoddau a hyfforddiant Mae Bywydau Du o Bwys. | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | Darparwyd hyfforddiant i ysgolion cynradd (Cyfnod Allweddol 2) ac ysgolion uwchradd (Cyfnodau Allweddol 3 a 4). Dosbarthwyd copïau papur o'r adnoddau addysgu i ysgolion ac mae fersiynau electronig ar y wefan. Derbyniodd nifer ragorol o ysgolion yr hyfforddiant.<br>G |
| Lleihau'r bwlch a lefel cyrhaeddiad addysgol i rai sy'n gymwys i gael/rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim. | Uwch Reolwr Gwella Ysgolion | Bu oedi yn y gwaith o gydgrynhoi ac adrodd ar ddata perfformiad cenedlaethol a lleol gan Lywodraeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru mewn ymateb i'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd y gwaith o adrodd ar ddeilliannau Cyfnod Allweddol 4 yn ailddechrau am gyfnod dros dro, wedi'i rannu fesul rhyw a chymhwyster o ran prydau ysgol am ddim.<br><br><br>. |
| Parhau i dyfu/ehangu'r grŵp Ieuenctid LHDT a pharatoi ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb wrth i gyfyngiadau COVID lacio. | Swyddog Gwybodaeth a Chyfranogi | Mae'r grŵp Pride Inspire yn dal i gael ei gynnal a gall unrhyw unigolyn ifanc sy'n gweithio gydag Inspire o Sir y Fflint fynychu, mae'n cyfarfod wyneb yn wyneb erbyn hyn. Yn ystod 2022/23, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid y gweithio gyda Theatr Clwyd i ymgynghori â phobl ifanc LHDTC+. Bydd gwaith partneriaeth yn digwydd gyda Viva (sefydliad sy'n cefnogi pobl ifanc LHDT+ yng Ngogledd Cymru) i gynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y sir.<br><br>Sefydlwyd partneriaeth rhwng Darpariaeth Ieuenctid Integredig a Theatr Clwyd a chafodd grŵp LHDT+ ei greu yn dilyn digwyddiad ymgynghori â phobl ifanc ym mis Ebrill 2022. Cynhelir y grŵp bob |

| | | |
|---|---|---|
| | | bythefnos, bob yn ail ddydd Mawrth â sesiynau Inspire fel bod gan bobl ifanc LHDT+ fynediad at ystod o grwpiau. Bydd y bartneriaeth yn parhau hyd at fis Hydref 2022.<br><br>G |
| Monitro Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy’n cyrraedd y system cyfiawnder ieuenctid | Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid | Cwblhawyd - ni ddynodwyd unrhyw anghymesuredd. Darperir adroddiadau i’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>G |
| Monitro effaith y Grant Datblygu Disgyblion a ddirprwywyd i ysgolion i gau’r bwlch cyrhaeddiad i ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim. | Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgolion | Mae pob ysgol yn cyhoeddi cynllun amlinellol i ddangos sut maent yn defnyddio eu dyraniad Grant Datblygu Disgyblion. Mae ymgynghorwyr cefnogi gwelliant o’r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion unigol i werthuso effaith y grant ar ddeilliannau i’w dysgwyr. Bu oedi yn y gwaith o gydgrynhoi ac adrodd ar ddata perfformiad cenedlaethol a lleol gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i’r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi’n ddiweddar y bydd y gwaith o adrodd ar ddeilliannau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfnod Allweddol 4 yn ailddechrau am gyfnod dros dro, wedi'i rannu fesul rhyw a chymhwyster o ran prydau ysgol am ddim.<br><br>G |
| Codi proffil pynciau STEM i ddisgyblion o gefndir Du a Lleiafrif ethnig. | Uwch Reolwr Gwella Ysgolion | Mae gwaith i hyrwyddo pynciau STEM ymhellach yn rhan o gynlluniau cefnogi i ysgolion pan fo'n berthnasol.  Bu oedi o ran adrodd ar ddata perfformiad yn lleol ac yn genedlaethol oherwydd COVID-19.<br><br>G |
| Darparu canllawiau diwygiedig polisi Traws ac adnoddau i ysgolion | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | Wedi ei atal ar hyn o bryd i ddisgwyl am ganllawiau Llywodraeth Cymru yn 2023. Mae ysgolion yn peilota adnoddau Jigsaw Personal, Addysg Gymdeithasol a Rhyw cyn i Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael ei gyflwyno yn y Cwricwlwm i Gymru.<br><br>A |
| **Amcan 3: Sicrhau cyflog cyfartal o fewn y gweithle drwy gael strategaethau cyflog a graddio teg, agored a thryloyw** | | |
| **Cam Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal archwiliad cyflogau blynyddol a datblygu camau gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng dynion a merched a grwpiau gwarchodedig eraill | Swyddog Polisi AD a Gwobrwyo | Mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi<br>G |
| Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael gwaith â thâl drwy Project Search. | Tîm Cynllunio a Datblygu | Cafodd pedwar o'r interniaid gyflogaeth am fwy na 16 awr yr wythnos. Mae saith o interniaid newydd wedi cael eu cyflogi<br>G |
| Cyflawni Lefel 3 Arweinydd Hyderus o ran Anabledd - Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau | Swyddog Polisi AD a Gwobrwyo | Rydym wedi dechrau adolygu'r camau sydd eu hangen i gyflawni lefel 3<br>G |
| Parhau i weithio gyda phrosiect "Llechen Lân Cymru", menter a ariennir gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) i gefnogi Ffoaduriaid a Theithwyr i gael gwaith. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Mae pedwar Ffoadur o Syria wedi cael eu hatgyfeirio at y rhaglen am hyfforddiant galwedigaethol<br>G |
| Parhau i gasglu data amrywiaeth gan gyflogwyr i gynyddu'r gyfradd ymateb | Swyddog Gwybodaeth Fusnes AD | Mae data amrywiaeth yn dal i gael ei gasglu. Mae data heblaw data ysgolion yn cael ei gasglu yn y cam recriwtio, fodd bynnag mae bylchau'n parhau mewn data ysgolion.  Mae TG yn datblygu system ddilysu dau gam fel bod Hunan-wasanaeth Gweithwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn cael ei gyflwyno i weithwyr ysgolion.<br>G |
| Monitro cydraddoldeb y gweithlu yn flynyddol a datblygu cynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw anghydraddoldebau a'u lleihau. | Swyddog Gwybodaeth Fusnes AD | Adroddiad i gael ei gyhoeddi<br>R |
| Monitro cydraddoldeb ein prentisiaid yn flynyddol i nodi tan-gynrychiolaeth a datblygu cynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw anghydraddoldebau | Swyddog Gwybodaeth Fusnes AD | Mae adroddiad i ddarparu data prentisiaid yn cael ei gynhyrchu ar wahân.<br>R |
| Dynodi cyfleoedd i ddefnyddio gweithredoedd positif i leihau anghydraddoldebau. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Dadansoddiad i gael ei gynnal yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad<br>A |
| Datblygu dull strategol a chyson o gynnwys gwerth cymdeithasol yn y broses gaffael i gynyddu cyfleoedd am brentisiaethau i bobl anabl, pobl o gefndir Du neu leiafrif ethnig a merched | Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol | Mae gwerth cymdeithasol yn rhan o'r broses gaffael i bob contract dros £25,000 ac yn orfodol i bob contract dros £1 miliwn. Adroddiad ar ganlyniadau o 2022 ymlaen<br>G |
| Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n cwblhau'r modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Anogwyd yr holl weithwyr i gwblhau'r modiwlau e-ddysgu drwy gydol y flwyddyn. Nifer sy'n cwblhau modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Deddf Cydraddoldeb - 23%<br>Cydraddoldeb yn y Gweithle - 25%<br>A |
| **Amcan 4: Gwella diogelwch personol i holl grwpiau gwarchodedig** | | |
| **Cam Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |
| Parhau i hyfforddi gweithwyr mewn timau allweddol i adnabod ac adrodd ar ddigwyddiad a ysgogwyd gan gasineb a throseddau casineb | Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Darperir hyfforddiant ar droseddau casineb yn rheolaidd drwy Gymorth i Ddioddefwyr<br>G |
| Codi ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau casineb a throseddau casineb mewn ysgolion drwy Grant Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru | Ymgynghorydd Polisi Strategol / Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Darparwyd hyfforddiant ar draws ysgolion Sir y Fflint<br>G |
| Datblygu mentrau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol drwy'r Grant Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Ymgynghorydd Polisi Strategol / Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Cynhaliwyd nifer o weithgareddau gan y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn cynnwys y prosiect Gwahanol Gyda'n Gilydd, gan ddod â phobl o gefndiroedd gwahanol at ei gilydd ar-lein.<br>G |
| Cymryd rhan ym mis Hanes LHDT | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Cynhaliwyd dathliad ar-lein drwy godi'r faner Enfys a hyrwyddo drwy'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfryngau cymdeithasol a datganiad i’r wasg<br><br>G |
| Cymryd rhan yn yr wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb flynyddol i gynyddu nifer yr adroddiadau gan bobl â nodweddion gwarchodedig | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Fe wnaethom weithio gyda Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i hyrwyddo gwybodaeth drwy’r cyfryngau cymdeithasol<br>G |
| Cynyddu nifer y gweithwyr sy’n cwblhau modiwlau e-ddysgu Llywodraeth Cymru ar Drais Domestig yn erbyn Merched. | Swyddog Gwybodaeth Fusnes AD | Mae 73% o weithwyr bellach wedi cwblhau’r hyfforddiant<br><br>A |
| Cynyddu nifer y gweithwyr sy’n mynychu hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Mae 22% o weithwyr wedi cwblhau’r hyfforddiant e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern<br><br>A |
| **Amcan 5: Cynyddu mynediad i gyfrannu at wasanaethau a gwneud penderfyniadau i holl grwpiau gwarchodedig** | | |
| **Cam Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |

| | | |
|---|---|---|
| Rhoi prosesau monitro cydraddoldeb ar waith mewn gwasanaethau allweddol i ddynodi rhwystrau posibl i fynediad | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Mae'r cam gweithredu hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol.<br>G |
| Cwblhau'r adolygiad o'r wefan i wneud yn siŵr ei bod yn bodloni safonau hygyrchedd | Pensaer Datrysiadau Digidol | Mae gwiriadau wythnosol yn cael eu gwneud i wirio cydymffurfiaeth. Mae grŵp gwefan y Cyngor cyfan wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod y wefan yn bodloni safonau hygyrchedd.<br>G |
| Adolygu cyfleoedd i wella mynediad at gludiant cyhoeddus i bobl anabl a phobl eraill | Rheolwr Cludiant | Cyflwyno'r gwasanaeth cludiant ymatebol Fflecsi yn Nhreffynnon. Mae adolygiad ar y gweill o drefniadau teithio lleol y sir a datblygiad y rhwydwaith teithio llesol. Mae'r cysyniad strydoedd ysgol yn parhau ar draws y sir.<br>G |
| Datblygu cynllun gweithgareddau ar gyfer y model newydd o Wasanaethau Archif sy'n targedu ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig. | Prif Archifydd | Cyflwynwyd cais am gyllid i'r Loteri Treftadaeth. Mae cais newydd yn cael ei wneud am lai o gyllid.<br>A |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i alluogi WiFi ar safleoedd Teithwyr yn cynnwys safleoedd dros dro. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Mae cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. G |
| Gweithio gydag Aura (gwasanaethau hamdden) a Street Games i ddarparu gweithgareddau chwaraeon wedi eu trefnu ar ein safleoedd teithwyr ein hunain | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Mae hyn yn ei le a gweithgareddau ar y gweill G |
| **Amcan 6: Gwella safon byw pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol** | | |
| **Cam Gweithredu** | **Pwy** | **Cynnydd** |
| Datblygu cynllun ar gyfer safle dros dro i Deithwyr | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Safle arfaethedig wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Aros am y canlyniad gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Disgwylir y canlyniad ym mis Hydref 2022 G |
| Gwella toiledau, ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau cegin ar safleoedd Teithwyr sy'n perthyn i'r Cyngor | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Cwblhawyd ym mis Awst 2020 G |
| Comisiynu contractwr i wella mannau gwyrdd a mannau chwarae i blant ar safleoedd Teithwyr. | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Mae dodrefn stryd ar gyfer gemau awyr agored a chae pum bob ochr caled bellach yn eu lle. Mae pobl ifanc sy'n byw ar ein safle wedi cael offer chwarae megis peli pêl-droed, racedi tenis a rhaffau sgipio. |

| | | |
|---|---|---|
| | | G |
| Dod yn ardal Adsefydlu i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid | Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr | Rydym yn trafod â’r Swyddfa Gartref a Clearsprings, y darparwr llety i’r Swyddfa Gartref<br>G |

**Amcan 7: Datblygu ein gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd gymdeithasol i amddiffyn pobl rhag tlodi**

| Cam Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|
| Darparu cynnyrch mislif am ddim mewn ysgolion uwchradd | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | Comisiynwyd Hey Girls i ddanfon cynnyrch mislif yn uniongyrchol i gartrefi genethod a merched ifanc rhwng 8-18 oed oedd yn mynychu ysgolion yn Sir y Fflint (yn cynnwys y rhai sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref). Gall y bobl ifanc neu eu rhieni archebu cynnyrch ar-lein erbyn hyn.<br>G |
| Darparu cynnyrch mislif am ddim mewn ysgolion cynradd | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | |
| Cynyddu’r nifer sy’n mynychu rhaglen amser cinio’r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau’r Ysgol - bydd pedwar safle ar gael bob blwyddyn i gynnig cinio. Cynigir 40 lle ar bob safle | Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu | Cafodd dros 160 o blant a phobl ifanc 5-12 oed fudd o’r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau’r Ysgol mewn 6 ysgol, a chafodd dros 2000 o brydau eu gweni yn ystod y rhaglen 12 diwrnod. |

| | | |
|---|---|---|
| | | G |
| Rhoi arweiniad Llywodraeth Cymru ar waith ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Cafodd pob pwyllgor craffu hyfforddiant fel eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth newydd. Cafodd arweiniad Llywodraeth Cymru ei rannu ag aelodau etholedig hefyd. G |
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a sicrhau bod pob aelwyd ar incwm isel yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo a sut i wneud cais. | Rheolwr Tîm - Asesu Budd-daliadau | Parhaus G |
| Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Tîm Diwygio Lles sy'n gallu cefnogi unrhyw gwsmer y mae'r newidiadau Diwygio Lles yn effeithio arnynt neu sy'n cael trafferthion ariannol. | Rheolwr Tîm Diwygio Lles | Parhaus G |
| Parhau i godi ymwybyddiaeth i sicrhau bod pob aelwyd ar incwm isel yn ymwybodol y gallant fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a Grant Gwisg Ysgol. | Rheolwr Tîm - Grantiau a Pherfformiad. | Parhaus G |
| Darparu cymorth cyfannol ac ariannol i gwsmeriaid sydd mewn trafferthion ariannol cyn iddynt fynd i dlodi. | Rheolwr Tîm Diwygio Lles | Parhaus G |